# Y Pwyllgor Materion Ewropeaidd ac Allanol

## Cofnodion EUR(2) 04-06

Dyddiad y cyfarfod: 10 Mai 2006
Amser y cyfarfod: 9:00 – 11:40
Lleoliad y cyfarfod: Cynulliad Cenedlaethol Cymru, y Senedd, Bae Caerdydd

### Aelodau'r Cynulliad yn Bresennol

| **Aelod Cynulliad** | **Etholaeth** |
|---|---|
| Sandy Mewies (Cadeirydd) | Delyn |
| Nick Bourne | Canolbarth a Gorllewin Cymru |
| Rosemary Butler | Gorllewin Casnewydd |
| Jeff Cuthbert | Caerffili |
| Mike German | Dwyrain De Cymru |
| Ieuan Wyn Jones | Ynys Môn |
| Jonathan Morgan | Canol De Cymru |
| Rhodri Morgan | Gorllewin Caerdydd |
| Rhodri Glyn Thomas | Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr |

### Swyddogion yn Bresennol

| **Enw** | **Teitl Swydd** |
|---|---|
| Gary Davies | Pennaeth yr Is-adran Materion Ewropeaidd ac Allanol |
| Des Clifford | Yr Is-adran Materion Ewropeaidd ac Allanol |
| Jeff Andrews | Cynghorydd Arbennig Ewrop |

| | |
|---|---|
| Anna Daniel | Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau |
| Cathy Presland | Pennaeth y Gangen – Y Gangen Polisi ac Uned Trawsbynciol |

## Eraill yn Bresennol

| **Enw** | **Yn cynrychioli** | **Eitem(au) Agenda** |
|---|---|---|
| Andy Klom | Pennaeth Swyddfa'r Comisiwn Ewropeaidd yng Nghymru | 4 a 6 |
| Martin Pollard | Swyddog Addysg, CEWC Cymru | 4 |
| Keith Davies | Cyfarwyddwr Bagloriaeth Cymru, CBAC | 4 |
| Nicky Griffiths | Myfyriwr, Prifysgol Bangor | 4 |

## Gwasanaeth y Pwyllgorau

| | |
|---|---|
| Chris Reading | Clerc |
| Leanne Hatcher | Dirprwy Glerc |

## Eitem 1: Cyflwyniad, Ymddiheuriadau, Dirprwyon a Datgan Buddiannau

- Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Jonathan Evans ASE, Glenys Kinnock ASE, Eluned Morgan ASE, Jill Evans ASE a Rose D'Sa.
- Mynegodd y Cadeirydd ei llongyfarchiadau i Rosemary Butler ar gael ei hethol yn Is-lywydd grwp newydd rhanbarthau â phwerau deddfwriaethol y Pwyllgor Rhanbarthau.
- Nid oedd unrhyw ddatganiadau buddiant.
- Mae cofnod gair-am-air o'r cyfarfod ar gael.

## Eitem 2: Cofnodion y cyfarfod blaenorol a materion yn codi

Papur: EUR(2) 03-06 – Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 6 Ebrill
Papur: EUR(2) 04-06 – Camau heb eu cymryd

- Cadarnhawyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 6 Ebrill fel cofnod cywir.
- Rhestr Camau heb eu cymryd: nid oedd unrhyw sylwadau.

## Eitem 3: Adroddiad y Prif Weinidog

Papur: EUR(2) 04-06 (p.1)

- Cyflwynodd y Prif Weinidog ei adroddiad.

Pwyntiau gweithredu:

- Cytunodd y Prif Weinidog i ddarparu gwybodaeth ychwanegol am arian cyfatebol y sector preifat ar gyfer rhaglenni'r cronfeydd strwythurol newydd, mewn perthynas â statws cyfraniad y sector gwirfoddol.
- Cytunodd y Prif Weinidog i roi adroddiad ynghylch a oedd Awdurdodau Ffrainc wedi ymyrryd yn anghyfreithlon i helpu'r diwydiant dofednod yn Ffrainc.
- Nododd y Pwyllgor eu bod yn dymuno cynnal digwyddiad i ddathlu Diwrnod Ewrop y flwyddyn nesaf. Gofynnodd y Cadeirydd i'r Clerc ystyried trefniadau priodol.

## Eitem 4: Papur Gwyn y Comisiwn Ewropeaidd ar y Strategaeth Gyfathrebu

Papur: EUR(2) 04-06 (p.2)

Papur: EUR(2) 04-06 (p.3)

## Croesawodd y Pwyllgor y cyflwyniad.

Pwyntiau gweithredu:

- Cytunodd Aelodau y byddant yn ymateb i Bapur Gwyn y Comisiwn Ewropeaidd ar Gyfathrebu, yn dilyn trafodaeth bellach yn y cyfarfod nesaf.
- Cytunodd Andy Klom i ddarparu gwybodaeth bellach i'r Pwyllgor ynghylch cyfathrebu gyda'r Undeb Ewropeaidd drwy gyfrwng y Gymraeg.
- Gofynnodd y Cadeirydd i Wasanaeth Ymchwil yr Aelodau ddarparu papur ynghylch sut y mae'r cyfryngau yng Nghymru wedi rhoi sylw i faterion Ewropeaidd dros y chwe mis diwethaf.
- Cytunodd Aelodau i gynnal adolygiad polisi ar y mater o sut y mae dinasyddiaeth Ewropeaidd a

byd-eang yn cael ei drin yng Nghymru a byddant yn ei ddefnyddio i gyfrannu at waith y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus a'r Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes.

## Eitem 5: Adroddiad Blynyddol Drafft a Blaenraglen Waith Strategol Ddrafft y Pwyllgor Materion Ewropeaidd ac Allanol

Papur EUR(2) 04-06 (p.4)

Papur: EUR(2) 04-06 (p.5)

Cymeradwyodd y Pwyllgor yr Adroddiad Blynyddol Drafft.

Pwyntiau gweithredu:

- Addawodd yr Aelodau gyflwyno unrhyw geisiadau, drwy e-bost i'r Clerc, er mwyn i eitemau penodol gael eu cynnwys yn y Flaenraglen Waith.

## Eitem 6: Y Strategaeth Polisi Flynyddol ar gyfer 2007

Papur: EUR(2) 04-06 (p.6)

Papur: EUR(2) 04-06 (p.7)

Croesawodd y Pwyllgor y cyflwyniad.

Pwyntiau gweithredu:

- Cytunodd y Clerc i ddosbarthu cyswllt i'r 27ain Adroddiad o Bwyllgor Craffu Ewropeaidd Ty'r Cyffredin: Sesiwn 2005-2006.

## Eitem 7: Y wybodaeth ddiweddaraf gan aelodau pwyllgor y rhanbarthau

Nododd y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf ar lafar gan Rosemary Butler.

Pwyntiau gweithredu:

- Cytunodd Rosemary Butler i ddosbarthu copïau o Adroddiadau i Aelodau ar Fynd i'r Afael â Thrychinebau Naturiol, Llygredd Aer ac Amgylchedd Morol unwaith y cant eu cyhoeddi.

## Eitem 8: Y Fframwaith Cyfeirio Strategol Cenedlaethol

Papur: EUR(2) 04-06 (p.8)

Papur: EUR(2) 04-06 (p.9)

Croesawodd y Pwyllgor y cyflwyniad.

Papur: EIN(2) 01-06 (p.4) – Papur i’w nodi

## Gwasanaeth y Pwyllgor